| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD** | 25 Ionawr 2022 |
| **TEITL** | Adroddiad ymchwil Tai Newydd yng Ngwynedd |
| **PWRPAS** | Cyflwyno canlyniadau'r gwaith ymchwil er gwybodaeth i'r aelodau |
| **AWDUR** | Emyr Edwards, Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth |

## 1. Cefndir

1.1 Fe gomisiynwyd y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth gan Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor yn 2018 i wneud darn o waith ymchwil ar dai newydd yng Ngwynedd.

1.2 Mae'r adroddiad canlyniadau (atodir gyda rhaglen y pwyllgor) yn egluro'n llawn bwrpas a brîff yr ymchwil a'r hyn a wnaed. Mae'n bwysig nodi nad prosiect ymchwil am yr iaith Gymraeg yn unig oedd hwn. Y bwriad wrth gomisiynu'r gwaith yn gorfforaethol oedd casglu tystiolaeth am y maes fel bod yr wybodaeth yma ar gael wedyn ar gyfer gwahanol swyddogaethau'r Cyngor ym meysydd tai, cynllunio, yr iaith Gymraeg a.y.b., gan helpu i daflu peth goleuni ar faes tai newydd yn gyffredinol – maes lle gall tystiolaeth bendant fod yn eithaf prin.

1.3 Yn gryno iawn roedd yr ymchwil yn golygu ymweld â phob tŷ cymharol newydd yng Ngwynedd (tua 1,000 o dai i gyd) gan holi rhai cwestiynau am pwy oedd yn byw yno, o ble roeddent wedi symud, iaith y cartref, a'u rhesymau dros ddewis tŷ newydd / tŷ yn yr ardal honno. Yn ogystal fe holwyd lle 'roeddent yn byw o'r blaen; lle'n berthnasol (ac os oedd y cyfeiriad hwnnw yng Ngwynedd) fe aethom i'r tŷ hwnnw wedyn gan holi'r un math o gwestiynau. Drwy hyn roeddem yn ceisio casglu tystiolaeth am yr holl "gadwyn" tai oedd yn dilyn symud i dŷ newydd – nid dim ond y tŷ newydd ei hun.

## 2. Canlyniadau'r ymchwil

2.1 Mae'r adroddiad canlyniadau (fersiwn gryno yn **Atodiad 1**, a'r fersiwn lawn yn **Atodiad 2**) yn manylu ar ganlyniadau'r ymchwil. Byddwn yn cyflwyno ac yn egluro rhai o'r prif ganfyddiadau yng nghyfarfod y Pwyllgor.

2.2 Mae holl aelodau etholedig y Cyngor eisoes wedi cael cyfle i glywed cyflwyniad am y canfyddiadau mewn sesiwn briffio ar faterion tai gynhaliwyd fis Rhagfyr.

2.3 Y prif wahaniaeth rhwng fersiwn lawn a fersiwn gryno yr adroddiad yw bod y fersiwn lawn (yn unol â brîff gwreiddiol y gwaith ymchwil) yn cyflwyno'r canlyniadau ar gyfer ardaloedd lleol o fewn Gwynedd, yn ogystal â Gwynedd gyfan. Fodd bynnag gan bod llawer mwy o dai newydd wedi'u hadeiladu yn rhai ardaloedd nag eraill, a'r gyfradd ymateb yn gallu amrywio cymaint, mae'r nifer o ymatebion a gafwyd yn fychan iawn mewn ambell ardal.

2.4 Mae'r canlyniadau ar gyfer Gwynedd gyfan (a gyflwynir yn y fersiwn gryno) yn llawer mwy cadarn, felly, o safbwynt ystadegol na'r canlyniadau fesul ardal leol a ddangosir yn yr adroddiad llawn.

## 3. Datblygiadau ers cwblhau'r ymchwil

3.1 Fe gwblhawyd y prosiect ymchwil tua canol 2019 a'r bwriad oedd cyflwyno'r canlyniadau fel rhan o ddigwyddiad torfol oedd y Cyngor am ei gynnal ar faterion tai yn ystod 2020. Yn anffodus wrth gwrs bu'n rhaid gohirio'r cynlluniau yma yn sgil Covid, ac mae'n annhebygol erbyn hyn y byddai cynnal digwyddiad o'r fath yn ymarferol am beth amser eto.

3.2 Dyma gyflwyno felly'r adroddiad fel y'i ysgrifennwyd yn 2019. Mae'r adroddiad yn nodi (t.6) ei bod yn *".....bwysig peidio gorddibynnu ar ganlyniadau'r ymchwil yma gan gymryd ei fod yn dweud y cyfan wrthym. Cynhaliwyd yr ymchwil yma ar bwynt penodol mewn amser; mae'n anodd cymryd yn ganiataol y byddai'r un patrymau yn union yn cael eu hailadrodd ar gyfer unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol ble gallai niferoedd / mathau / union leoliadau'r tai newydd, a chyflwr y farchnad dai yn lleol / yn gyffredinol, fod yn wahanol".*

3.3 Nid oeddem i wybod ar y pryd wrth gwrs y byddai'r farchnad dai leol yn cael ei thrawsnewid yn dilyn cyfnod Covid. Mae hyn yn golygu bod casgliadau'r ymchwil wedi dyddio ynghynt na'r disgwyl efallai, ond fe'i cyflwynir yma fel adlewyrchiad o'r sefyllfa oedd yn bodoli ar y pryd.